

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



## HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU

### NOTICE OF AMENDMENTS Cyflwynwyd ar 22 Hydref 2010 Tabled on 22 Hydref 2010

Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru)  
Proposed Mental Health (Wales) Measure

**Edwina Hart**

**1**

To insert a new Section --

**'( ) Duty to review the Measure**

- (1) The Welsh Ministers must review the operation of this Measure for the purposes of publishing a report or reports in accordance with subsections (3) to (6).
- (2) Before undertaking a review of the operation of any part or provision of the Measure, the Welsh Ministers must satisfy themselves that there has been sufficient time for that part or provision to have been in operation; but this is subject to subsections (3) to (6).
- (3) A report on a review of the operation of Part 1 must be published within four years of the commencement of all the duties contained in the following provisions: sections 2(1), 3(1), 4(1), 6(2), 7(2), 8(2), 9(2) and 10(1) to (3).
- (4) A report on a review of the operation of Part 2 must be published within four years of the commencement of all the duties contained in the following provisions: sections 13(1), 16(1) and 17(1) and (10).

- (5) A report on a review of the operation of Part 3 must be published within four years of the commencement of all the duties contained in the following provisions: sections 18(1) and (3), 19, 23(1) and (2), 25, 26(2) and 27(1) and (2).
- (6) A report on a review of the operation of Part 4 must be published within four years of the commencement of all the duties contained in section 130E(1) of the Mental Health Act 1983, as inserted by section 29 of this Measure.
- (7) Any two or more reports may be published in the same document.
- (8) For the purposes of this section, “commencement” means commencement for any case, class of case, area or purpose.
- (9) The Welsh Ministers must lay a copy of any report required to be published under subsections (3) to (6) before the National Assembly for Wales.’.

I ychwanegu Adran newydd –

**(1) Dyletswydd i adolygu'r Mesur**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad y Mesur hwn at ddibenion cyhoeddi adroddiad neu adroddiadau yn unol ag is-adrannau (3) i (6).
- (2) Cyn ymgymryd ag adolygiad o weithrediad unrhyw ran neu ddarpariaeth o'r Mesur, rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod amser digonol wedi mynd heibio i'r rhan honno neu'r ddarpariaeth honno fod ar waith; ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) i (6).
- (3) Rhaid cyhoeddi adroddiad ar adolygiad o weithrediad Rhan 1 o fewn pedair blynedd ar ôl cychwyn yr holl ddyletswyddau a geir yn y darpariaethau canlynol: adrannau 2(1), 3(1), 4(1), 6(2), 7(2), 8(2), 9(2) a 10(1) i (3).
- (4) Rhaid cyhoeddi adroddiad ar adolygiad o weithrediad Rhan 2 o fewn pedair blynedd ar ôl cychwyn yr holl ddyletswyddau a geir yn y darpariaethau canlynol: adrannau 13(1), 16(1) ac 17(1) a (10).
- (5) Rhaid cyhoeddi adroddiad ar adolygiad o weithrediad Rhan 3 o fewn pedair blynedd ar ôl cychwyn yr holl ddyletswyddau a geir yn y darpariaethau canlynol: adrannau 18(1) a (3), 19, 23(1) a (2), 25, 26(2) a 27(1) a (2).
- (6) Rhaid cyhoeddi adroddiad ar adolygiad o weithrediad Rhan 4 o fewn pedair blynedd ar ôl cychwyn yr holl ddyletswyddau a geir yn adran 130E(1) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i mewnosodwyd gan adran 29 o'r Mesur hwn.
- (7) Caniateir cyhoeddi unrhyw ddau adroddiad neu ragor yn yr un ddogfen.
- (8) At ddibenion yr adran hon, ystyr “cychwyn” yw cychwyn ar gyfer unrhyw achos, dosbarth o achos, ardal neu ddiben.
- (9) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o unrhyw adroddiad y mae'n ofynnol ei gyhoeddi o dan is-adrannau (3) i (6) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.’.